# Trefniadau Gwrth-dwyll

Cyngor Sir Gâr

Mai 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 11 |
| Atodiadau | 12 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 13 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Yn 2020, fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru 15 o argymhellion yn ei adroddiad, Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, a hynny er mwyn gwella'r ffordd y mae sector cyhoeddus Cymru'n mynd i'r afael â thwyll. Yn yr adolygiad cyfredol hwn, fe wnaethom fwrw golwg ar drefniadau Cyngor Sir Gâr (y Cyngor) i atal a chanfod twyll, gan ystyried yr argymhellion blaenorol hynny. Fe wnaeth yr archwiliad fwrw golwg ar:

- arweinyddiaeth a diwylliant;
- rheoli a rheolaeth risg;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithio; a
- llywodraethu.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae'r risg o dwyll yn fygythiad mwyfwy cyffredin i bron pob rhan o fywyd o ddydd i ddydd. Mae'r risg o dwyll yn amlwg ar draws pob agwedd ar y sector cyhoeddus. Yn yr adroddiad a gyhoeddodd yn 2024, Overview of the impact of fraud and error on public funds, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amlygu amcangyfrif Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA) bod twyll a gwallau wedi costio rhwng £55 biliwn ac £81 biliwn i drethdalwyr y DU yn 2023-24. Mae hyn yn awgrymu y gallai colledion trwy dwyll fod yn sylweddol i bob cyngor.

3 Mae trefniadau gwrth-dwyll cryf yn helpu'r Cyngor i ddiogelu ei arian a chynnal hyder y cyhoedd yn y modd y mae'n rheoli adnoddau. Maent hefyd yn helpu i ddangos bod y Cyngor yn atebol ac y gellir ymddiried ynddo.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Mae gan y Cyngor sylfeini cryfion ar gyfer mynd i'r afael â thwyll. Mae'n gosod safbwynt eglur o ddim goddefgarwch, mae ganddo strategaeth wedi'i diffinio'n glir, ac mae'n defnyddio staff medrus. Mae ganddo drefniadau cynhwysfawr i adnabod risgiau o dwyll, ymchwilio i achosion, ac i danategu sut y mae'n gweithio gyda phartneriaid. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor fwy o ffocws ar ymchwiliadau i dwyll nag ar waith ataliol wedi'i gynllunio. Nid yw'r Cyngor wastad yn gwneud y gorau o'i arbenigedd gwrth-dwyll pan ddatblygir polisïau neu systemau newydd. Gallai hefyd egluro a chryfhau ei ddull o roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a brofwyd. Byddai cysylltiadau mwy eglur rhwng risgiau o dwyll, gwaith atal a goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn helpu i gryfhau sicrwydd a hybu safbwynt dim goddefgarwch y Cyngor.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

5 Rydym wedi gwneud pum argymhelliad ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cryfhau trefniadau i sicrhau bod arbenigwyr gwrth-dwyll yn cael eu cynnwys pan fo'r Cyngor yn cyflwyno polisïau newydd neu'n newid systemau;
- ffurfioli trefniadau presennol i nodi'n glir beth yw dull y Cyngor ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a brofwyd;
- adolygu trefniadau cyn cyflogi i'w sicrhau ei hun bod ystyriaeth ddigonol a chymesur i drefniadau gwrth-dwyll yn ei broses recriwtio;
- estyn ei Gynllun Archwilio Mewnol blynyddol i fanylu ar waith ataliol sy'n gallu ymateb i'r risgiau a adnabuwyd yn ei Asesiad o'r Risg o Dwyll; a
- ffurfioli trefniadau presennol i ddysgu o ddigwyddiadau twyll a sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i wella.

# Ein canfyddiadau

## Arweinyddiaeth a diwylliant

6 Mae Strategaeth Wrth-Dwyll a Llygredigaeth y Cyngor yn gwneud datganiad eglur o ddim goddefgarwch tuag at dwyll. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) yn pwysleisio pwysigrwydd canfod twyll a gwaith a wneir gan y Tîm Twyll a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfio Ariannol sydd â chyfrifoldeb ar y cyfan am drefniadau gwrth-dwyll.

7 Ategir y safbwynt corfforaethol eglur hwn gan amrywiaeth o gyfathrebu a hyfforddiant i staff i gynnal proffil uchel ar gyfer gwaith twyll. Mae twyll hefyd yn un o risgiau corfforaethol y Cyngor ac yn cael ei ystyried yn chwarterol gan y TRhC a phob chwe mis gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor. Mae'r strwythur hwn yn dangos bod atal twyll yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac yn cael ei gefnogi'n gorfforaethol.

## Fframwaith rheoli a rheolaeth risg

8 Mae gan y Cyngor drefniadau priodol i adnabod ac asesu risgiau o dwyll. Mae ei dîm gwrth-dwyll yn arwain ar Asesiad y Cyngor o'r Risg o Dwyll, gan dynnu ar gudd-wybodaeth leol a chenedlaethol. Mae rheolwyr meysydd gwasanaeth yn bwydo i mewn i'r broses hon, gan helpu i wneud yr asesiad yn gynhwysfawr. Mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i adnabod risgiau posibl o dwyll ac fe allent gynnig gwaith gwrth-dwyll ataliol.

9 Gallai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ymhellach i reoli risgiau o dwyll trwy sicrhau yr ymgysylltir â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol bob amser i asesu prosiectau a pholisïau newydd ar gyfer risgiau posibl o dwyll. Heb eu cynnwys hwy, efallai na fydd y risg y gallai prosiectau a pholisïau newydd adael y Cyngor yn agored i dwyll yn cael ei hystyried na'i hadnabod yn llawn.

# Polisïau a hyfforddiant

10 Mae gan y Cyngor Strategaeth Wrth-Dwyll gynhwysfawr sy’n amlinellu ei drefniadau ar gyfer adnabod risgiau o dwyll, eu rheoli ac ymateb iddynt. Ategir y Strategaeth hon gan ei brotocol gwrth-dwyll ac mae wedi’i chydgysylltu â strategaethau cysylltiedig eraill.

11 Mae gan y Cyngor drefniadau i adnabod risgiau o dwyll, ymateb iddynt a’u rheoli. Caiff y prosesau hyn eu nodi’n glir yn ei Gynllun Ymateb i Dwyll. Mae’r Cyngor yn cynnal cofnod o’i ymchwiliadau i dwyll sy’n cynnwys y broses ymchwilio a ddilynwyd a chanlyniadau wedi hynny. Gallai wella hyn ymhellach trwy nodi sicrwydd cymesur yn ei adroddiadau ei fod wedi cydymffurfio â’i Gynllun Ymateb i Dwyll wrth gynnal ymchwiliadau.

12 Mae gan y Cyngor drefniadau da i sicrhau bod staff a chynghorwyr yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll fel sy’n briodol i’w rôl. Mae’n darparu hyfforddiant ar-lein gorfodol i’r holl ddechreuwyr newydd, ac mae rheolwyr yn cael eu hysbysu pan fo hyfforddiant diweddaru’n ofynnol. Mae’r Cyngor yn monitro’r niferoedd sy’n gwneud hyfforddiant ac yn adrodd ar hynny. Mae swyddogion twyll yn cwrdd â rheolwyr gwasanaethau i godi ymwybyddiaeth o faterion twyll hefyd. Canfuom hefyd achosion lle’r oedd y Cyngor wedi datblygu hyfforddiant pwrpasol mewn ymateb i ddigwyddiadau twyll penodol. Gallai gryfhau ei drefniadau yn y maes hwn ymhellach trwy sicrhau bod y rhai â mynediad cyfyngedig at e-ddysgu hwythau’n cael hyfforddiant gwrth-dwyll.

13 Mae rhoi cyhoeddusrwydd i dwyll a ganfuwyd yn gallu helpu i rwystro twyllwyr rhag cyflawni twyll. Fodd bynnag, gall fod yn anodd penderfynu pryd a sut i wneud hyn. Mae’r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a ganfuwyd sy’n arwain at euogfarn droseddol. Mae hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i rai achosion o dwyll a ganfuwyd nad ydynt wedi arwain at erlyniad troseddol ond yr ystyrir eu bod er budd y cyhoedd. Nid yw wedi nodi ei ddull o roi cyhoeddusrwydd i achosion eraill o dwyll a brofwyd. Mae diffyg dull cytunedig o roi cyhoeddusrwydd i fanylion rhai achosion o dwyll yn gallu cyfyngu ar rwystro twyll ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o lwyddiant y Cyngor o ran canfod twyll.

14 Nid oes gan y Cyngor ffocws digon cryf ar waith gwrth-dwyll yn ei drefniadau ar gyfer camau gwirio cyn cyflogi. Cyn caniatáu i gyflogeion newydd ddechrau gwaith, mae'r Cyngor yn cwblhau cyfres o wiriadau cyn cyflogi sy'n cynnwys gwirio pwy yw'r unigolion, gwirio dogfennaeth hawl-i-weithio a gwirio geirdaon. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn ar gyfer camau gwirio cyn cyflogi'n cynnwys ffocws penodol ar waith gwrth-dwyll. Hefyd, nid yw'r Cyngor wedi gwerthuso pob swydd a rôl i adnabod y rhai â mwy o risg o dwyll. Gallai estyn ei drefniadau ar gyfer camau gwirio cyn cyflogi gryfhau trefniadau gwrth-dwyll ataliol y Cyngor ymhellach.

## Capasiti ac arbenigedd

15 Mae'r Cyngor yn glir ynghylch cyfrifoldebau swyddogion am drefniadau gwrth-dwyll. Mae ganddo swyddogion â chymwysterau priodol i wneud gwaith gwrth-dwyll. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio cymorth arbenigol ychwanegol pan fo angen.

16 Er gwaethaf ei gapasiti i ymateb i dwyll, canfuom gyfleoedd i gryfhau ffocws y Cyngor ar atal. Mae Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol y Cyngor yn dyrannu adnoddau cyffredinol ar gyfer gwaith gwrth-dwyll ataliol, ond nid yw hwn yn darparu rhyw lawer o fanylion am waith gwrth-dwyll ataliol sydd wedi'i gynllunio. O ganlyniad, nid oes cyswllt eglur rhwng risgiau o dwyll a adnabyddir yn ei Asesiad o'r Risg o Dwyll a chamau lliniaru yn y Cynllun Archwilio Mewnol. Gall cysylltu'r asesiad o'r risg o dwyll wrth gynllunio gwaith ataliol helpu cynghorau i dargedu eu hadnoddau i gael yr effaith fwyaf.

17 Canfuom enghreifftiau o'r Cyngor yn dysgu gwersi o weithgarwch twyll. Er enghraifft, mae achosion o dwyll yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata ganolog sy'n helpu i adnabod gwersi. Fodd bynnag, trwy ein gwaith maes canfuom nad yw hon yn cael ei defnyddio'n gyson. Golyga hyn y gallai'r Cyngor golli cyfleoedd i wella trwy adnabod a rhannu gwersi.

## Offer, data a chydweithio

18 Mae Strategaeth Wrth-Dwyll y Cyngor yn glir ynglŷn â'i ddull o fynd i'r afael â thwyll wrth weithio gyda sefydliadau eraill. Mae'r Strategaeth yn enwi'r partneriaid allanol y mae'n gweithio gyda hwy, gan gynnwys cynghorau eraill a grŵp Prif Archwilwyr Mewnol Cymru. Mae gan y Cyngor hefyd gytundebau memorandwm cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda Heddlu Dyfed Powys a'r Adran Gwaith a Phensiynau ac mae wedi gweithio gyda phartneriaid eraill ar brosiectau penodol.

19 Mae'r Cyngor yn defnyddio offer paru data ac yn cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) i ganfod twyll a gwall. Ymarfer paru data ledled y DU yw'r Fenter Twyll Genedlaethol sy'n cael ei rhedeg gan Swyddfa'r Cabinet ac sy'n coladu gwybodaeth gan gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill i adnabod anghysonderau a allai ddynodi twyll. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn bwysig gan ei bod yn helpu'r Cyngor i adennill ac atal colledion trwy adnabod hawliadau a thaliadau twyllodrus. Mae'r gwaith hwn yn gwarchod arian cyhoeddus, yn cryfhau ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn helpu i sicrhau tegwch ar draws y sector cyhoeddus.

20 Mae gan y Cyngor ddull eglur o feintioli colledion o ganlyniad i dwyll. Mae'n defnyddio ei gronfa ddata twyll i gyfrifo colledion posibl o weithgarwch twyll. Mae hyn yn cynnwys meintioli gwerth dyledion sy'n weddill o waith adfer dyledion Budd-dal Tai. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn defnyddio fframweithiau megis y Fenter Twyll Genedlaethol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i feintioli colledion mewn modd cyson. Trwy gryfhau ei drefniadau, gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd meincnodi, gan rannu mewnwelediadau a chydweithio gydag eraill.

# Llywodraethu

21 Canfuom gyfleoedd i gryfhau goruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’n cael diweddariadau ar ymchwiliadau i dwyll a’u canlyniadau, yn bennaf trwy’r adroddiad twyll blynyddol. Mae adroddiadau’n ôl-weithredol i raddau helaeth ac nid yw’r wybodaeth am weithgarwch ataliol wedi’i gynllunio a blaenoriaethau yn y cynllun archwilio mewnol yn fanwl. Gall hyn gyfyngu ar allu’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod wedi’i sicrhau bod y Cyngor yn mynd ati’n effeithiol i atal risgiau o dwyll ac ymateb iddynt.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau presennol i sicrhau bod staff gwrth-dwyll yn cael eu cynnwys pan fo'r Cyngor yn cyflwyno neu'n newid polisïau a systemau, i sicrhau bod y risg o dwyll yn cael ei hasesu ac yr ymdrinnir â hi (**paragraff 9**).

**A2** Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau presennol i rwystro twyll i'r eithaf trwy nodi'n glir beth yw dull y Cyngor ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a brofwyd (**paragraff 13**).

**A3** Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer camau gwirio cyn cyflogi i'w sicrhau ei hun bod ystyriaeth ddigonol a chymesur i waith gwrth-dwyll yn ei broses recriwtio (**paragraff 14**).

**A4** Dylai'r Cyngor estyn ei Gynllun Archwilio Mewnol blynyddol i fanylu ar waith ataliol penodol sy'n nodi blaenoriaethau, cyfrifoldebau a'r adnoddau y mae eu hangen i ymateb i'r risgiau yn ei Asesiad o'r Risg o Dwyll (**paragraff 16**).

**A5** Dylai'r Cyngor ffurfioli a gwreiddio ei drefniadau presennol i ddysgu o ddigwyddiadau twyll i sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i wella (**paragraff 17**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom archwilio trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys archwilio polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithredol. Digwyddodd y gwaith maes yn ystod mis Hydref 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd y cwestiynau â meysydd allweddol gan gynnwys:

- Arweinyddiaeth a diwylliant;
- Fframwaith rheoli a rheolaeth risg;
- Polisïau a hyfforddiant;
- Capasiti ac arbenigedd;
- Offer a data;
- Cydweithio; a
- Llywodraethu.

### Meini prawf

Fe wnaethom seilio ein hasesiad ar safonau cydnabyddedig a chanllawiau statudol, gan gynnwys:

- argymhellion yn yr adroddiad Gwella Ein Perfformiad: Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Gorffennaf 2022, fel sail ar gyfer trefniadau gwrth-dwyll priodol;
- adolygiadau lleol blaenorol Archwilio Cymru o drefniadau gwrth-dwyll; a
- myfyrio ar yr egwyddorion yn yr adroddiad Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru gan Archwilio Cymru, yn arbennig elfennau allweddol o ddiwylliant gwrth-dwyll effeithiol.

# Dulliau

Fe ddefnyddiom ni ddau ddull i gasglu tystiolaeth:

- **Adolygiad o ddogfennau** – Fe wnaethom archwilio dogfennau mewnol, gan gynnwys strategaeth a phrotocol y Cyngor ar wrth-dwyll, ei bolisïau, canllawiau, adroddiadau ar berfformiad, a dogfennaeth Archwilio Mewnol. Fe helpodd y rhain ni i ddeall trefniadau llywodraethu'r Cyngor, ei weithrediadau a'r modd y mae'n cydymffurfio.
- **Cyfweliadau** – Fe gynhaliom ni gyfweliadau strwythuredig gyda staff a chynghorwyr sy'n rhan o oruchwylio a rheoli trefniadau gwrth-dwyll, gan gynnwys uwch swyddogion. Fe helpodd y trafodaethau hyn ni i ddeall sut y mae polisïau a gweithdrefnau'n gweithio'n ymarferol.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E–bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.